**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 2023**
27 Mehefin 2023 18.30 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

June Jones, Bethan Gritten, Siân Cwper, Cenwyn ap Tomos

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Elin Jones, Glyn Griffiths

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Misol 2 Mai 2023

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 2 Mai 2023, yn ddarostyngedig i'r angen i nodi yn eitem 5.2 fod y Clwb Yoga yn annhebygol o ddefnyddio'r Ganolfan, gan y byddant yn defnyddio Plas Brondanw. Yn ogystal, angen diwygio eitem 5.4, egluro mai barn y cyhoedd oedd bod angen cadw lle gwyrdd yng Ngharreg Frech cymaint â phosibl, ond bod yna deimlad hefyd y byddai offer pren yn tanio dychymyg plant a hynny'n fuddiol hefyd.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Bethan Gritten

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Cais Cynllunio Carreg Frech

Derbyniodd Parc Cenedlaethol sylwadau gan asiant ADRA, Cadnant Planning, ar lythyr y cyngor cymuned ddyddiedig 2 Rhagfyr 2022. Gofynnodd adran gynllunio'r Parc am ymateb y cyngor cymuned i'r sylwadau hynny.

**Cytunwyd i ymateb gan nodi'r sylwadau yma:**

- Nad oes tystiolaeth o'r angen am 8 tŷ yn Llanfrothen
- Parhau i wrthwynebu'r newidiadau i'r llwybr cyhoeddus a'r llwybr amgen y bwriedir ei ddarparu

### 5.2 Y Ganolfan

Er mwyn medru cynnig cyfarfodydd hybrid, ble gall aelodau neu’r cyhoedd ymuno o bell, mae angen cryfhau signal band eang yr ysgol, Gwynedd Ni. Cytunodd y Cynghorydd Bethan Gritten i edrych ar osod bwster TP linc er mwyn medru cryfhau’r signal.

Nid oedd y Cynghorydd Glyn Griffiths yn bresennol i fedru adrodd os oedd wedi edrych ar broblem drws Y Ganolfan yn anodd ei gau.

**5.3 Goryrru Llanfrothen**

Cytunwyd fod angen gosod 2 fesurydd goryrru ym mhentref Llanfrothen; un wrth y tro du draw i Lodge Brondanw am Tan Lan, cyn gadael y cyfyngiad 30 mya, ac un wrth adael Llanfrothen am Benrhyndeudraeth.

**5.4 Maes Chwarae Llanfrothen**

Yn y tymor byr, ystyriwyd mai’r ffordd ymlaen o ran sefydlu cyfleuster chwarae yn Llanfrothen fyddai cael maes chwarae yn nhafarn Y Ring.

Gofynnwyd i’r Clerc ysgrifennu at Robinsons gan ofyn iddynt a fyddent yn fodlon ystyried gosod lle chwarae yno, ac y byddai buddsoddi mewn lle chwarae yn ffordd o ddenu teuluoedd i ddefnyddio’r dafarn.

Gofynnwyd hefyd i’r Clerc ddanfon copi o adroddiad yr holiadur maes chwarae at yr aelod o’r cyhoedd wnaeth holi am y ddarpariaeth yng nghymuned yn y lle cyntaf

**5.5 Mynwent Tan Lan**

Yn dilyn asesiad risg, ddaeth i’r casgliad fod 7 carreg fedd angen sylw, mae’r rheswm dros freuder y cerrig beddi oherwydd bod plinth y cerrig beddau wedi rhydu.

Pe byddai rhodiau dur di-staen yn cael eu gosod, ni fyddent yn rhydu, a buasai’r broblem yn llai tebygol o godi.

Cytunwyd y dylai cerrig beddi a osodir yn y fynwent yn y dyfodol yn cynnwys rhodiau dur di-staen fel nad yw’r broblem yn codi yn y dyfodol.

Mae’r canllaw oedd wedi torri yn y fynwent wedi ei adnewyddu.

**5.6 Clymog Siapan, Pont Haearn, Afon Caseg**

Holodd y Cynghorydd Nia Povey adran tramwy Cyngor Gwynedd, a fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon delio efo’r clymog siapan sydd yn tyfu ger y llwybr cyhoeddus ger Pont Haearn, Afon Caseg.

Ymateb Cyngor Gwynedd oedd mai dim ond gwaredu clymog siapan fyddai’n tyfu ar y llwybr eu hun fydden nhw yn ei wneud, ac mae perchennog y tir ddylai fod yn gyfrifol.

Cytunwyd i ofyn i'r Dref Werdd pe byddai ganddynt hwythau ddiddordeb i wneud y gwaith. Mae angen rhywun efo trwydded i wneud y gwaith.

Yr amser cywir i'w drin byddai ym mis Medi/Hydref, pan fydd y blodau wedi marw.

## 5.7 13 Garreg Frech

Ysgrifennodd y Clerc at Mabon ap Gwynfor gan ofyn iddo holi Cyngor Gwynedd pryd y byddant yn bwrw ymlaen i gael gorchymyn arwystl ar 13 Garreg Frech. Disgwylir ateb.

Cysylltodd y Cynghorydd June Jones efo adran gorfodaeth tai Parc Cenedlaethol Eryri, ond eu hymateb hwy oedd na fedran nhw wneud dim byd am nad oedd cyflwr yr eiddo yn ddigon drwg.

Mae'n bosibl ysgrifennu at adran iechyd ac amgylchedd ond byddan nhw angen caniataid preswyliwr y tŷ drws nesaf cyn ystyried gwneud dim. Cytunodd y Cynghorydd June Jones i gysylltu efo perchennog tŷ drws nesaf.

## 5.8 Cysgodfan Fws Llanfrothen

Cadarnhaodd y Cynghorydd Bethan Gritten ei bod hi'n adnabod pensaer fyddai'n fodlon gwneud cynllun am ddim ym mis Medi.

Unwaith y bydd cynllun yn ei le, bydd angen edrych ar ffynonellau ariannol.

## 5.9 Tafarn y Ring

Does dim diweddariad pendant ar hyn o bryd, ond fod Robinsons yn dweud fod ganddyn nhw denantiaid mewn golwg.

Nid yw'n eglur os bu Balfours, asiant Stad Brondanw mewn cysylltiad efo Robinsons. Gofynnwyd i'r Clerc holi Balfours a fuon nhw mewn cysylltiad ai peidio.

## 5.10 Grid Cenedlaethol

Nid yw cynghorau cymuned yn gymwys ar gyfer cais am grant gan y Grid Cenedlaethol, ond gall grwpiau lleol eraill wneud cais, e.e. Y Dref Werdd, Caffi Croesor, Menter Llanfrothen ac yn y blaen.

Efallai y gallai un o'r sefydliadau yma wneud cais am gyllid ar gyfer y cysgodfan fws. Gall Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd roi cymorth efo hyn.

Bydd angen trafod ymhellach unwaith y bydd cynllun mewn lle ar gyfer y gysgodfan fws.

**5.11 Llwybr Llanfrothen - Penrhyndeudraeth**

Mae Perchennog Morawel ger is-orsaf Scottish Power yn fodlon ystyried gwerthu darn bach o dir sydd wrth ochr yr A4085, pe byddai yna gynllun mewn lle i gael llwybr cerdded a beicio rhwng Llanfrothen a Phenrhyndeudraeth.

Roedd y Cynghorydd Glyn Griffiths wedi cytuno i dynnu llun o'r tro, ond nid oedd yn bresennol i fedru adrodd yn ôl ar hyn.

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Mai 2023 £239.72

TWE £59.80

**6.2** Cyflog Clerc Mehefin 2023 £239.72

TWE £59.80

**6.3** Ad-dalu'r Clerc Yswiriant BHIB £992.67

**6.4** Costau cyfrif HSBC prif gyfrif 21041169 hyd at 5 Mai 2023 - £8.00, hyd at 5 Mehefin 2023 - £8.00

**6.5** Anfoneb Dunn & Ellis Anfoneb 143852 £59.40

**6.6** Ad-dalu'r Clerc Microsoft 365 £59.99

**6.7** yuenergy £29.50 a £9.50

**6.8** Snowdonia Fire Protection, Anfoneb 308779, 309303 £126.00

**6.9** Balans yn y prif gyfrif 20 Mehefin2023 £19,407.52

Balans yn y cyfrif cadw 20Mehefin 2023 £21.285.75

**7. Gohebiaeth**

Dim

**8. Cynllunio**

Dim

**9. Materion Eraill**

**9.1 Ffurflen Flynyddol 2022/23**

Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2022/23.

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:** Bethan Gritten

**9.2 Rheolau Sefydlog**

Cymeradwywyd y Rheolau Sefydlog

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

### 9.3 Rheolau Ariannol

Cymeradwywyd y Rheolau Ariannol

**Cynnig:** Cenwyn ap Tomos

**Eilio:** Bethan Gritten

### 9.4 Newid Amser Cyfarfodydd

Cytunwyd i newid amser cyfarfodydd i 7 yr hwyr ar gyfer y gaeaf, o gyfarfod Medi 2023 ymlaen.

| **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 4 Medi 2023 am 7 yr hwyr** |
| --- |